# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol ~ Weekly Newsletter

**17.07.26**




## Ffarwel! ~ *Farewell!*

A dyna ni! Daeth blwyddyn prysur a llwyddiannus i ben! Blwyddyn o brofiadau lu, dysgu difyr a gofal angerddol. Ar ran holl staff yr ysgol, diolch i chi am bob cefnogaeth eto eleni er lles ein disgyblion. Mae cymuned ein hysgol mor arbennig a braint yw gallu bod yn rhan o Deulu Gwaelod a gweld ein plant yn ffynnu a thyfu yma.

Gyda phob diwedd, wrth gwrs, daw ambell ffarwel. Cawsom wasanaeth hyfryd y bore ma wrth i ni ffarwelio ag ambell aelod staff. Diolch o galon i **Mr Owen, Miss Evans. Mrs Hollingsworth ac i Jane ac Alan Ashman** am bob cyfraniad gwerthfawr a phwysig i'r ysgol. Mae pob un ohonoch wedi bod gwneud gwahaniaeth mawr i'n plant, rhai ohonoch dros nifer o flynyddoedd. Boed yn ymddeoliad, gyrfa newydd neu'n astudiaeth bellach, pob lwc i chi ar eich pennod nesaf, ac o waelod calon, diolch.

Mae hi wedi bod yn wythnos emosiynol o ffarwelio gyda holl ddisgyblion hoffus ac annwyl Blwyddyn 6. Cawsom Wasanaeth Ymadael arbennig iawn Dydd Mercher, gyda phawb yn perfformio'n arbennig iawn er gwaetha ambell ddeigryn. Diolch i bob aelod staff sydd wedi bod yn rhan o'ch siwrne yma. Pob lwc i chi gyd wrth hedfan nyth Gwaelod a diolch i chi am eich cyfraniad arbennig i'r ysgol. Cofiwch gadw tamaid bach o Gwaelod y Garth yn eich calon ar hyd eich siwrne. Byddwch wych!

Ga i orffen gan ddymuno gwyliau haf hapus a dedwydd i chi gyd. Mwynhewch pob eiliad pwysig gyda theulu a ffrindiau. ❤ Bydd yr ysgol yn ail-agor i blant ar Ddydd Iau, Medi'r 3ydd. Joiwch!

●☆●☆●☆●☆●☆●☆

And there we have it – the end of a busy and successful! A year of rich experiences, learning, care and support. On behalf of all our staff, diolch to you for all your valued support again this year for the benefit of our pupils. We really to have a special school community. It is a huge privilege to be a part of Teulu Gwaelod and to see our children thrive and grow.

With each ending, of course, come a few goodbyes. We had a lovely assembly this morning as we bid farewell to some members of staff. *Diolch* to **Mr Owen, Miss Evans. Mrs Hollingsworth** and to **Jane and Alan Ashman** for their valuable and important contributions to our school. You have all made a huge difference to our children, some over many years. Whether retiring or moving on to a new career or further study, *pob lwc* to you all, and from the bottom of my heart, *diolch.*

It has been an emotional week of saying goodbye to our very dear Year 6 pupils. We held a special Leavers' Assembly on Wednesday, with all pupils managing excellent performances despite a few tears. *Diolch* to all the members of staff who have been part of your journey here. *Pob lwc* to you all as you flee the Gwaelod nest and diolch for your special contributions to our school. Always keep a small part Gwaelod y Garth in your heart on your journey. Aim high and shine brightly!

May I finish by wishing you all a happy summer holiday. Enjoy the important moments with family and friends. ❤ The school will re-open to children on Thursday, September 3rd.

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**Dydd Iau 03.09.26**
Diwrnod cyntaf y tymor i blant / *First day of the new term for children*

---

Diwrnodau HMS 26-27
26-27 INSET days

01.09.26
02.09.26
05.10.26
04.01.27
30.04.27
28.05.27

---

Mae calendr byw ar dudalen cartref y wefan.

*Our live calendar is on our school website's homepage.*

Gwasanaeth Ymadael Blwyddyn 6 a’r daith hwyl i Abertawe – Pob lwc i chi gyd!

Year 6 Leavers’ Assembly and the trip to Swansea – Good luck to you all!









Diolch o galon i Alan Ashman, Jane Ashman, Mr Owen, Miss Evans a Mrs Hollinsgworth am bob peth. Pob lwc i chi gyd!

A huge thank you to Alan Ashman, Jane Ashman, Mr Owen, Miss Evans and Mrs Hollinsgworth. Pob lwc i chi gyd!






Diolch i'r Llysgenhadon Lles ac i Mrs Jones am ein harwain tuag at
Wobr Arian Ysgolion sy'n parchu hawliau!

Diolch to the Well-being ambassadors for leading us to the
Silver Rights-Respecting Schools award!

## Hawl y Mis - Mis Gorffennaf




## Right of the Month - July







### Amddiffyn a Diogelu Plant

Mae Amddiffyn a Diogelu Plant yn fater pwysig iawn. Mae dyletswydd ar bawb yn y gymuned i ddiogelu pob plentyn. Mae polisi diogelu'r ysgol ar wefan yr ysgol: Polisi Diogelu ac Plant

Pe bai gennych bryder am ddiogelwch plentyn, dylech rhannu'r pryder gyda Swyddogion Diogelu'r ysgol ar unwaith. **Swyddogion Diogelu** yr ysgol yw Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen a Mrs Helen Davies. Gallwch ffonio'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod diogelu.

### Child Protection and Safeguarding

Child Protection and Safeguarding is an important matter. All members of the community have a duty to protect all children. The school's safeguarding policy can be found on the school's website: Safeguarding and Child Protection

If you have a concern about a child's safety, you should share the concern with the school's Safeguarding Officers immediately. The school's Safeguarding Officers are Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen and Mrs Helen Davies. You can call the school at any time to discuss safeguarding.